ANTUR

137

Bl. 5 a 6

Dwi wedi sgïo lawr mynydd uchel,
ac wedi nofio ar draws y Môr Tawel.

Dwi wedi gleidio o ochrau'r Wyddfa,
a rhedeg marathon drwy'r Sahara.

Mi fum fel aderyn yn lledu adenydd
mewn naid o awyren uwch Seland Newydd.

Mi wnes i naid bynji o bont yn Awstralia,
a marchogaeth ceffylau ar draws yr India.

Mewn anialwch neu awyr, ar fôr ac ar fynydd,
be ydy'r gwahaniaeth rhwng dychymyg a chelwydd?

Tudur Dylan Jones